RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
13/2017

DYDDIAD CYHOEDDI:
08/03/2017

# Proffiliau Twristiaeth Rhanbarthol, 2014: De-Ddwyrain Cymru

© Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-4734-9251-6

**Teitl: Proffiliau Twristiaeth Rhanbarthol, 2014**
**Is-deitl: De-Ddwyrain Cymru**
**Awdur: Patience Eastwood**

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.


I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Patience Eastwood

Croeso Cymru

Llywodraeth Cymru

Rhodfa Padarn

Llanbadarn Fawr

Aberystwyth,

Ceredigion

SY23 3UR

Ffôn: 0300 062 2278

E-bost: patience.eastwood@wales.gsi.gov.uk

## De-Ddwyrain Cymru

| Teithiau (miloedd) | Cyfartaledd 2011-2013 | Cyfartaledd 2012-2014 | % o newid |
|---|---|---|---|
| Ymweliadau dros nos (preswylwyr Prydan Fawr) | 2,310 | 2,231 | -1% |
| Ymweliadau dros nos (rhyngwladol) | 436 | 441 | +1% |
| Ymweliadau dydd | 41,000 | 38,000 | -7% |
| Cyfanswm | 43,746 | 40,672 | -7% |

| Gwariant (£ miliwn) | Cyfartaledd 2011-2013 | Cyfartaledd 2012-2014 | % o newid |
|---|---|---|---|
| Ymweliadau dros nos (preswylwyr Prydain Fawr) | £374 | £361 | -3% |
| Ymweliadau dros nos (rhyngwladol) | £168 | £165 | -2% |
| Ymweliadau dydd | £1,556 | £1,465 | -6% |
| Cyfanswm | £2,098 | £1,991 | -5% |


Mae rhanbarth twristiaeth y De-Ddwyrain yn cynnwys nifer o'r awdurdodau lleol lleiaf yng Nghymru o ran eu maint daearyddol, sef Penybont-ar-Ogwr, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Caerdydd, Casnewydd a Sir Fynwy. Dyma'r rhanbarth sydd â'r dwyster poblogaeth mwyaf a'r rhanbarth sydd yn cynnwys y gydran uchaf o ardaloedd trefol, er nad yw'n drefol i gyd, ac mae'n cynnwys rhan fwyaf deheuol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, a restrir fel Rhanbarth Wybren Dywyll.

## 1. Ymweliadau dros nos o'r DU

Daw data yn yr adran hon o Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr. Mae'r canlyniadau ar gyfer 2012-2014 oni nodir fel arall.

Dyma'r unig ranbarth yng Nghymru lle mae nifer yr ymweliadau domestig wedi gostwng, o gyfartaledd blynyddol o 2,255,000 yn ystod y cyfnod 2006-8, i 2,231,000 y flwyddyn yn y cyfnod 2012-14. Fodd bynnag, bach iawn yw'r gostyngiad (tua 1%), ac mae'r rhanbarth hwn y dal i fod yn ail safle o ran teithiau domestig dros nos, yn denu 23% o holl deithiau dros nos i Gymru yn y flynyddoedd 2012-14.

Ffig1.1: Teithiau a Gwariant (Ymweliadau dros nos o'r DU)





Mae gwariant ar ymweliadau dros nos o'r DU â'r rhanbarth hefyd wedi gostwng, o gyfartaledd blynyddol o £376 miliwn yn y cyfnod 2006-08 i £361 miliwn yn y cyfnod 2012-14. Yn groes i'r tueddiad cyffredinol ar lefel genedlaethol, mae gwariant cyfartaledd fesul taith wedi gostwng dros y 9 mlynedd olaf. Fe allai hyn fod yn rhannol oherwydd gostyngiad

mewn hyd arhosiadau ar deithiau i'r rhanbarth hwn, o gyfartaledd o 2.75 o nosweithiau y daith i 2.37, gostyngiad o14% rhwng 2006-08 a 2012-14.

**Diben y Daith**

Yn annhebyg i bob rhanbarth arall yng Nghymru, diben mwyaf cyffredin ar gyfer daith ddomestig dros nos i Dde-Ddwyrain Cymru yw ymweld â ffrindiau neu'r teulu. Bu hefyd canran uwch o deithiau busnes i'r rhanbarth nag i unrhyw un o'r rhanbarthau eraill yng Nghymru, a chanran is o ymweliadau ar gyfer gwyliau.


Ffig.1.2: Diben yr Ymweliad (Ymweliadau dros nos o'r DU)





**Patrwm tymhorol yr ymweliadau**

Mae patrwm tymhorol llai pendant o ran teithiau i'r rhanbarth hwn o'i gymharu â phatrwm Cymru'n gyffredinol. Er i'r deithiau fod yn fwy tebygol o ddechrau yn yr haf, bach yw'r gwahaniaeth yn achos y De-Ddwyrain.

Ffig. 1.3: Ymweliadau fesul Chwarter (Ymweliadau dros nos o'r DU)




Ffig. 1.4: Y math o le yr ymwelwyd ag ef (Ymweliadau dros nos o'r DU)



**Y Math o Le**

Mae'r ffigurau ar gyfer natur cyrchfannau'r teithiau i'r rhanbarth hwn hefyd yn sylweddol yn wahanol i'r ffigurau ar gyfer Cymru gyfan ac i bob rhanbarth arall yng Nghymru, gydag ymwelwyr â'r rhanbarth hwn yn llawer fwy tebygol o ymweld â dinas neu dref fawr, ac yn llawer llai tebygol o ymweld â glan y mor, â chefn gwlad, neu â phentref bach. Nid yw hyn yn syfrdanol am fod y rhanbarth yn cynnwys canran llawer uwch o drefi mawr a dinasoedd nag yw'r achos yng Nghymru'n gyffredinol.

**Rhanbarth Tarddiad**

Roedd ymwelwyr â'r De-Ddwyrain yn llawer mwy tebygol o ddod o Dde Lloegr, Llundain neu o Gymru. Roeddent yn llawer llai tebygol o ddod o Orllewin Canolbarth Lloegr neu Orllewin-Ogledd Lloegr. O ystyried y cysylltiadau trafnidiaeth pwysig rhwng y rhanbarth hwn a De Lloegr, e.e. y draffordd M4 a'r rheilffordd Caerdydd-Llundain, ni ddylai hyn synnu neb.


Tabl 1.1: Rhanbarth Tarddiad (Ymweliadau dros nos o'r DU)

| Rhanbarth Tarddiad | Cyfartaledd Blynyddol Teithiau, (Miloedd) | Cyfran o Holl Teithiau i De-Orllewin Cymru |
|---|---|---|
| Yr Alban | 24 | 1% |
| Cymru | 652 | 29% |
| Gogledd-Ddwyrain Lloegr | 31 | 1% |
| Gogledd-Orllewin Lloegr / Glannau Mersi | 129 | 6% |
| Swydd Efrog / Glannau Humber | 89 | 4% |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 132 | 6% |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 163 | 7% |
| Dwyrain Lloegr | 128 | 6% |
| Llundain | 205 | 9% |
| De-Ddwyrain Lloegr | 296 | 13% |
| De-Orllewin Lloegr | 383 | 17% |

**Y Math o Lety**

Mae ymwelwyr â'r De-Ddwyrain yn fwy tebygol o aros mewn llety â gwasanaeth, sydd yn gweddu i natur fwy trefol y rhanbarth, ac maent hefyd yn fwy tebygol o aros mewn cartref roeddent hwy, ffrind neu berthynas yn berchen arno, sydd yn gweddu i'r ganran uwch o ymweliadau â ffrindiau a'r teulu yn y rhanbarth hwn.

Ffig. 1.6: Y Math o Lety (Ymweliadau dros nos o'r DU)



## 2. Ymweliadau Rhyngwladol


Daw data yn yr adran hon o'r Arolwg Teithwyr Rhyngwladol. Mae'r canlyniadau ar gyfer 2010-14 oni nodir fel arall.

Cyn y chwalfa ariannol, bu ymweliadau o dramor â De-Ddwyrain Cymru yn codi. Cyrhaeddwyd brig o 510,000 o ymwelwyr y flwyddyn yn y flynyddoedd 2006-08, ond yna ddechreuodd y niferoedd ostwng. Fodd bynnag, gwelwyd ychydig o welliant yn ystod y blynyddoedd diweddar, ac yn 2012-14, bu cyfartaledd o 441,000 o ymweliadau y flwyddyn, yn debyg iawn i'r 443,000 a nodwyd yn 2002-04.

Mae gwariant ar ymweliadau o dramor wedi cynyddu, o gyfartaledd o £138 miliwn y flwyddyn yn 2002-04, i £165 miliwn yn 2012-14.

Gwelwyd mwy o ymwelwyr o dramor yn y rhanbarth hwn nag yn unrhyw rhanbarth arall yng Nghymru: mae'r rhanbarth yn denu hanner o holl ymweliadau o dramor â Chymru. Mae gwariant ar ymweliadau o dramor yn y rhanbarth yn uchel hefyd; gwariwyd 47% o'r holl gwariant gan ymwelwyr o dramor â Chymru yn y De-Ddwyrain yn 2012-14.


Ffig. 2.1: Teithiau a Gwariant (Ymweliadau Rhyngwladol)




**Diben yr Ymweliad**

Fel yn achos ymweliadau dros nos gan Brydeinwyr, roedd cyfrannau uwch o deithiau busnes i'r rhanbarth hwn o'u cymharu â'r cyfrannau ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd, a chyfrannau is o wyliau; fodd bynnag, nid oedd y tueddiad yma mor amlwg yn achos ymweliadau o dramor.


Ffig. 2.2: Diben y Daith (Ymweliadau Rhyngwladol)




**Gwlad Tarddiad**

Y wlad tarddiad fwyaf cyffredin ar gyfer ymwelwyr rhyngwladol â'r De-Ddwyrain oedd Ffrainc. Roedd hyn yn annhebyg i ranbarthau eraill Cymru, lle ddaeth ymwelwyr o Weriniaeth Iwerddon yn y safle cyntaf.

Ffig. 2.3: Gwlad Tarddiad Ymwelwyr (Ymweliadau Rhyngwladol)



## 3. Ymweliadau Dydd


Daw data yn yr adran hon o Arolwg Ymweliadau Dydd Prydain Fawr. Mae'r canlyniadau ar gyfer 2014 oni nodir fel arall.

Fel cyfartaledd blynyddol dros y blynyddoedd 2011-2014, cafwyd 39 miliwn o ymweliadau dydd â'r De-Ddwyrain, gyda gwariant cysylltiedig o £1454 miliwn yn flynyddol. Y De-Ddwyrain, felly, yw'r rhanbarth mwyaf poblogaidd o lawer ar gyfer ymweliadau dydd, gyda chanran o dros 40% o'r holl ymweliadau undydd â Chymru.  Ni ddylai poblogrwydd y rhanbarth hwn synnu oblegid y gwneir ymweliadau undydd yn fwyaf aml gan breswylwyr y rhanbarth, a chan y rhanbarth hwn y dwyster poblogaeth uchaf o lawer yng Nghymru.

**Gweithgareddau**

Y gweithgaredd mwyaf poblogaidd ar ymweliad dydd â De-Ddwyrain Cymru oedd "ymweld â ffrindiau a'r teulu", y gweithgaredd mwyaf poblogaidd yn achos mwyafrif y rhanbarthau yng Nghymru.

Ffig 3.1: Gweithgareddau Cyffredin ar Ymweliad Dydd (Ymweliadau Dydd)





Cynhaliwyd y gweithgareddau hyn ar o leiaf 2 filiwn o ymweliadau.

**Y Math o Le**

Y math o le yr ymwelwyd amlaf ag ef yn y De-Ddwyrain oedd dinas neu dref fawr, gyda 43% o'r holl ymweliadau dydd â'r rhanbarth.  O'u cymharu â'r rhanbarthau eraill, roedd ymwelwyr â De-ddwyrain Cymru yn sylweddol llai tebygol o ymweld â glan mor neu'r arfordir, neu â chefn gwlad neu bentref.  Gellir ystyried bod hyn oherwydd natur drefol y rhanbarth, sydd yn golygu bod ymweliad dydd yn fwy tebygol o fod â lleoliad trefol.


Ffig 3.2: Y Math o Le yr ymwelwyd ag ef (Ymweliadau Dydd)




**Y Pellter Teithio**

O'r rhanbarthau i gyd, mae gan y rhanbarth hwn y gyfran leiaf o ymwelwyr undydd sydd yn teithio o bell (dros 40 milltir). Mae'r tueddiad hwn yn gweddu i ddwyster poblogaeth uchel a natur drefol y rhanbarth. Serch hynny, roedd canran gymharol uchel o ymweliadau undydd yn cynnwys teithio o bellterau sylweddol, gyda chwarter yn cynnwys taith dros 40 milltir.

Ffig 3.3: Y Pellter Teithio (Ymweliadau Dydd)



**Rhanbarth Tarddiad**Tarddodd y gyfran fwyaf o ymweliadau dydd â'r De-Ddwyrain o'r rhanbarth ei hun, man preswyl  dau draean o'r holl ymwelwyr undydd â'r rhanbarth. Byddai hyn hefyd yn gweddu i'r ganran lai o deithiau hir i'r rhanbarth.

Tabl 3.1: Rhanbarth Tarddiad (Ymweliadau Dydd)


| Rhanbarth Tarddiad | Ymweliadau, Miliwn |
|---|---|
| Canolbarth Cymru | 1 |
| De-Orllewin Cymru | 3 |
| De-Ddwyrain Cymru | 23 |
| Gogledd-Orllewin Lloegr / Glannau Mersi | 1 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 1 |
| De-Ddwyrain Lloegr | 2 |
| De-Orllewin Lloegr | 1 |

Yn cynnwys pob rhanbarth sy'n rhanbarth tarddiad ar gyfer o leiaf 1 miliwn ymweliadau dydd.

**Dull teithio**

Fel sydd yn wir am bob rhanbarth yng Nghymru, y car yw'r dull teithio mwyaf poblogaidd ar gyfer ymweliadau dydd. Dyma hefyd y rhanbarth gyda'r ganran uchaf o ddefnydd bysiau ar gyfer teithiau undydd, o bosibl am fod mwy o drafnidiaeth fws ar gael yn y rhanbarth hwn. .

Ffig 3.4: Dull teithio (Ymweliadau Dydd)




## 4. Defnydd Llety

Daw data yn yr adran hon o Arolwg Defnydd Llety Twristiaeth Cymru.


Mae defnydd llety mewn gwestai yn uwch yn Ne-Ddwyrain Cymru nag yn unrhyw ranbarth twristiaeth arall, er dim ond cyfartaledd yw cyfradd defnydd gwlâu. Gellir cysylltu hyn â'r gydran uwch o deithwyr busnes yn y rhanbarth, sef gwesteion sydd yn fwy tebygol o deithio ar eu pen eu hunain. Er i gyfradd defnydd Gwely a Brecwast/Tai llety fod yn gymharol isel, mae'n ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan. Ceir tueddiad cyffredinol yn achos defnydd ystafelloedd mewn gwestai yn ogystal â sefydliadau Gwely a Brecwast, i ddangos gostyngiad hyd at oddeutu 2011, gydag adferiad yn dilyn. Nid yw cyfraddau defnydd unedau Hunanddarpar yn dangos tueddiad eglur iawn ond mae wedi bod peth gostyngiad yn ystod y blynyddoedd diweddar.

Ffig 4.1: Cyfradd defnydd dros amser




Nodyn: Dydy ffigurau ar gyfer defnydd gwelai hostel dim ar gael am y rhanbarth ar hyn o bryd.

Ffig 4.2: Cyfradd Defnydd, 2014




## 5. Cyflogaeth

Daw data yn yr adran hon o Ystadegau Sector â Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru. Mae'r canlyniadau ar gyfer 2014 oni nodir fel arall.


Cyfran y swyddi yn y sector twristiaeth yn y De-Ddwyrain yw 9.2%, yn debyg i'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan. Mae hyn yn golygu bod un o bob rhyw un ar ddeg o swyddi yn y rhanbarth yn y sector twristiaeth.

Ffig. 5.1: Cyflogaeth mewn Twristiaeth



Mae nifer absoliwt y swyddi yn y sector yn ogystal â chanran y swyddi yn yr economi sydd yn y sector twristiaeth, wedi cynyddu dros y deng mlynedd diwethaf.

Ffig. 5.2: Newid mewn Cyflogaeth Twristiaeth dros Amser




## 6. Stoc gwlâu

Daw data yn yr adran hon o'r adroddiad Stoc Gwlâu. Mae'r canlyniadau ar gyfer 2013 oni nodir fel arall.


Dim ond 9% o leoedd gwlâu sydd ar gael yng Nghymru gyfan sydd yn rhanbarth y De-Ddwyrain, a rhyw hanner o'r rhain yn y sector llety â gwasanaeth (gwestai/gwely a brecwast/tai llety), cyfran llawer uwch nag yn unrhyw ranbarth arall. Mae hefyd gyfran uwch o leoedd gwely mewn hostelau, ond canrannau is o leoedd gwely hunanddarpar a Chararfanio a Gwersylla.

Amrywia'r lleoedd gwely sydd ar gael fesul awdurdod lleol: mae gan Gaerdydd y stoc mwyaf a gan Flaenau Gwent y lleiaf. Mae gan Gaerdydd nifer fawr o leoedd gwely mewn sefydliadau llety â gwasanaeth (gwestai/gwely a brecwast/tai llety), gyda 14% o'r holl leoedd gwely yn y mathau hyn o lety yng Nghymru, mwy nag unrhyw awdurdod lleol arall namyn Conwy.


Ffig. 6.1: Gwlâu Twristiaeth




Ffig 6.2 Gwlâu Llety â Gwasanaeth



Ffig. 6.3: Gwlâu Hunanddarpar




Ffig. 6.4 Gwlâu mewn Gwersyll/Carafán

